Ac meddai Iesu wrtho, “Dos a gwna dithau yr un modd.”
(Luc 10:37)

Daw’r geiriau yma ar ddiwedd un o ddamhegion enwocaf yr Arglwydd Iesu, sef dameg y Samariad Trugarog. Mae neges y ddameg yn bwerus iawn. Mae’n dweud wrthym pa fath o gymydog y dylem fod i eraill, ac mae’n ein hatgoffa pa fath o gymydog y mae Duw i ni yn yr Efengyl.

Y Gyfraith

Mwy na thebyg, roedd y person a gododd i roi prawf ar Iesu yn un o’r ysgrifenyddion. Nhw oedd y dynion oedd yn astudio, dysgu, dehongli a thraddodi Cyfraith Moses.

Mewn ateb i’w gwestiwn ynglŷn â bywyd tragwyddol, mae Iesu yn gofyn iddo grynhoi dysgeidiaeth y Gyfraith. Mae ateb yr arbenigwr cyfreithiol yma yn un da, fel crynodeb o’r Deg Gorchymyn. Mae Iesu’n dweud wrtho i wneud hyn er cael y bywyd mae’n ei geisio.

Fe ddylai’r dyn fod wedi cyfaddef yn y fan yma nad oedd yn gallu gwneud hyn, ond, yn hytrach na hynny, mae’n ceisio’i gyfiawnhau ei hun. Yn lle cyfaddef ei anghyfiawnder gerbron Cyfraith Duw, mae’n ceisio esboniad fydd yn peri iddo deimlo’n well ac yn fwy gobeithiol am ei hunan; ond dywed y Gair **“gerbron Duw ni chyfiawnheir neb meidrol trwy gadw gofynion cyfraith”** (Rhuf. 3:20).

Dywed yr Efengyl y cawn ein cyfiawnhau gerbron Duw trwy ffydd yng Nghrist. Wrth ymddiried yn aberth y groes, cawn dderbyn cyfiawnder Crist, sef cyfiawnder Duw, i’n gwneud yn dderbyniol gerbron Duw.

Y Ddameg

Wrth geisio’i gyfiawnhau ei hun, mae’r cyfreithiwr fel petai’n gofyn: ‘pwy ddyliwn i fod yn ei garu fel cymydog?’ Ond mae dameg Iesu a’i gwestiwn yn y diwedd: **“Prun o’r tri hyn, dybi di, fu’n gymydog i’r dyn a syrthiodd i blith lladron?”** yn awgrymu y dylem fod yn gofyn i ni’n hunain, ‘i bwy alla i fod yn gymydog da?’

Y crefyddwyr a’r Samariad

Mae sawl ergyd bachog yn nameg Iesu. Mae’n darlunio dyn mewn angen wrth ymyl y ffordd. Mae dau arweinydd crefyddol yn mynd heibio iddo, sef offeiriad a Lefiad. Roedd yr offeiriaid yn gwasanaethu yn y deml. Roedd hwn, felly, yn mynd i gyfeiriad Jerwsalem i roi gwasanaeth, neu yn mynd i gyfeiriad Jericho

ar ôl rhoi gwasanaeth. Yn ein termau ni heddiw, byddai'n esgob neu'n weinidog parchus yn mynd yn ei gar i gyhoeddiad.

Roedd y Lefiaid yn cynorthwyo'r offeiriaid yn eu gwaith. Felly, mae hwn fel pregethwr cynorthwyol neu ddarllenydd lleyg yn ein termau ni. Beth bynnag am eu swyddi a'u statws, doedden nhw ddim yn gymdogion i'r truan, nac yn ei ystyried ef yn gymydog iddyn nhw.

Roedd y Samariaid yn cael eu dirmygu gan yr Iddewon ers canrifoedd. Roedd y cyfan yn mynd nôl i'r wythfed ganrif C.C. pan ddaeth yr Asyriaid a chaethgludo mwyafrif pobl teyrnas y gogledd i ardal Media. Yn eu lle, fe fewnfudwyd pobl o Babilon, Cutha, Awa, Hamath a Seffarfaim (2 Bren. 17:24). Priododd gweddill yr Israeliaid â'r mewnfudwyr, ac, felly, roedd eu plant yn gymysg. Roedd hyn yn groes i Gyfraith Duw, ac roedd Iddewon 'pur' Jwda yn osgoi'r Samariaid fel y pla, ac yn eu casáu. I ni heddiw, gall fod yn debyg i'r tensiwn rhwng y du a'r gwyn, y Cymry a'r Saeson, neu'r Protestaniaid a'r Pabyddion yn Iwerddon.

Croesi ffiniau

Felly, mae Iesu yn dweud bod caru cymydog yn golygu croesi a goresgyn ffiniau gwahaniaethol. A dyma'n union yr hyn mae Duw wedi'i wneud yng Nghrist. Dydy'r Arglwydd Dduw ddim wedi mynd heibio i'r byd yn ei angen pechadurus, er bod ein pechod wedi ein pellhau a'n dieithrio oddi wrth ein Creawdwr. Er gwaethaf hynny, daeth Duw yn ddyn, a daeth yn ddyn i gario pwys ein cwymp ac i dalu ein dyledion, a gwnaeth hynny'n arbennig trwy gymryd ein lle ar groes Calfaria. Wrth i ni droi at Grist mewn edifeirwch a ffydd, cawn brofi croeso, lletygarwch a noddfa fel pechaduriaid blinedig a sychedig. Cawn brofi gwin ac olew cariad maddeuol Duw.

Gwneud yr un modd

Mae'r Arglwydd Iesu yn disgwyl i ni roi'r un cariad ag yr ydym wedi ei dderbyn ganddo. Ei orchymyn newydd i'w ddisgyblion oedd: **"Fel y cerais i chwi, felly yr ydych chwithau i garu'ch gilydd"** (Ioan 13:34). Mae'n dweud mai nodwedd ei wir ddisgyblion yw cariad aberthol tuag at ei gilydd.

Mae'r Gwaredwr yn mynd yn bellach na hynny hefyd, gan ei fod yn ein gorchymyn i garu ein gelyn: **"carwch eich gelynion, a gweddïwch dros y rhai sy'n eich erlid"** (Math.5.44). Wrth gwrs, dyna'n union wnaeth yr Arglwydd ei hun pan oedd yn hongian ar y groes. O am fod yn gymydog fel Iesu!